

QfA
Quality for All
*helpu plant gyrraedd eu potensial*
*helping children reach their potential*

# Quality for All (QfA) Factsheet

Early Years Wales quality assurance scheme

**Whether you are a playgroup, day nursery, creche, childminder or out of school club, Quality for All (QfA) will benefit you. It encourages you to reflect on, review and develop your childcare provision. It is designed to recognise quality childcare and provides you with the opportunity to promote your business.**

QfA can help you show how achieving, maintaining and improving the quality of care for the children in your setting is your constant aim and priority. It links to Care Inspectorate Wales' (CIW) regulatory requirements and the demands made on you by other regulators and local authorities. It can help you manage and complete your annual self-assessment of service, without duplication of work.

**How it works:**

1. **Purchase the pack.** It is designed to be completed electronically, www.earlyyears.wales
2. **Read the guidance that is included with the pack.** There is guidance provided for each section of the evaluation form. Links and references to external documents that provide advice and knowledge as you need it are also included.
3. **Start the evaluation of your provision.** There is a 2-year time limit set for completion and submission; you request assessment only when you are ready.
4. **Submit your evaluation by email.** As the provider you are in control of managing your service and the plans to improve it. Assessment of your provision starts with your written evaluation and much of the assessment will be based on what you say in the evaluation.
5. **The assessment.** You can expect just one assessment visit that is designed to suit your provision. A plan explaining what is expected at the visit is sent in advance.
6. **Accreditation.** You will receive a certificate to display at your setting.
7. **Staying accredited.** Before the certificate expires send in your updated self-evaluation form, detailing the progress, changes and future plans that have been made. You will then be sent an invoice for your annual re-accreditation, once received an assessor will be in touch.

**Your commitment to continuous reflective practice and improvement enables you to meet regulations and local authority demands effectively and economically.**

| Price for | Members: | Non-members: |
|---|---|---|
| Downloadable guidance and evaluation pack | £65 inc VAT | £87 inc VAT |
| Initial assessment | £220 inc VAT | £282 inc VAT |
| Annual re-accreditation | £160 inc VAT | £220 inc VAT |

- **For those with 3 or more settings** 10% discount is applied for the second (and each additional) provision.*

**Corporate membership of Early Years Wales:**

- Purchase QfA packs and assessment at membership rates
- When purchasing 3 or more packs and/or assessments 10% discount is applied for the second (and each additional) provision
- If re-accreditation is payable by the individual provider discount will only apply if they are a member of Early Years Wales

*Discount offers are reviewed annually

**Sign up to Quality for All** (QfA) by visiting: **https://earlyyears.wales/shop**

For more information please contact:

**QfA Co-ordinator,**
Early Years Wales Head Office,
Unit 1, The Lofts,
9 Hunter Street,
Cardiff,
CF10 5GX
T: 029 2045 1242 / 07581 630974
E: info@earlyyears.wales

**Early Years Wales 2018**
Registered in Wales
Registered Office Unit 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Cardiff, CF10 5GX
Company limited by guarantee 3164233.
Charity 1056381

### Here is an example from the QfA guidance section:

# 2.4 Staff interaction with each other, children, parents and others

**Children are cared for in a positive working, learning, nurturing and play environment**

Describe how daily practice demonstrates and reinforces the ethos of your service. The confidence, sense of well-being and enthusiasm shown by the children in your care will reflect the qualities of your staff team. Children thrive on their journey to independence in the care of well qualified staff who are responsive, affectionate and available to them in a warm and nurturing environment. Review and evaluate how staff speak to each other in the presence of children and others; how they demonstrate a model of positive social interaction both verbally and non-verbally. Staff will recognise and understand that they communicate with babies and children in a variety of ways, both verbal and non-verbal. They will also know the importance of giving responses to children, letting them know they have been heard and respected for their contribution to the conversation.

Consider how effectively staff help children to recognise and understand facial expressions, how staff explain children's actions, feelings and intentions to each other (that no harm was meant by another child for instance) and children's acts of kindness or generosity are routinely noted and praised. Consider how a child is gently directed away from an activity or introduced to another.

Consider how staff are sensitive about children's feelings, how they prepare children for a change of activity, or how they 'warn' a baby about to be picked up. Note how confident you are that your staff may be aware of and act on problems before they happen.

**Consider the following:**

- Staff model positive social interaction both verbal and non-verbal throughout their practice
- Staff encourage and confirm a positive self-image in children throughout their practice
- Staff challenge examples of stereotyping and anti-discriminatory practice as and when they occur
- Staff explain children's actions, intentions and feelings to them
- Staff point out and talk about instances of positive social interaction to each other and children
- Staff routinely demonstrate sensitivity about children's feelings and reactions

- Staff understand the impact of how they meet and greet children, parents and visitors
- Staff remain aware of the whole group while working with one child or a small group of children
- Staff are aware of and act on problems before they occur
- Staff identify and vary the intensity of supervision to suit individual needs of children according to circumstances and activity
- Staff recognise and support children's growth towards independence
- Interpersonal interactions among staff do not interfere with care-giving responsibilities
- The staff code of conduct includes staff interaction with children and each other while in the work place
- Staff are competent when dealing with confidentiality throughout their work

**Here is a sample of the QfA providers self-evaluation form:**

## 2.4 Staff interaction with each other, children, parents and others

| Children are cared for in a positive working, learning, nurturing and play environment |
|---|

Provider's evidence

| |
|---|
| *Note here information and give examples of practice and/or documents that support your statements in response to 2.4:* |
| |
| *Note here anything you want to work on and include in future improvement plans. Summarise them at section D:* |

QfA assessor's findings for 2.4:

| | |
|---|---|
| QfA assessor's judgement: | QfA assessor's comments |



QfA
Quality for All
*helpu plant gyrraedd eu potensial*
*helping children reach their potential*

# Ffeithlen Ansawdd i Bawb (QfA)

Cynllun sicrwydd ansawdd Blynyddoedd Cynnar Cymru

**A ydych yn grŵp chwarae, yn feithrinfa ddydd, creche, gofalwr neu glwb allan o'r ysgol, bydd Ansawdd i Bawb o fudd i chi. Mae'n eich annog i ystyried, adolygu a datblygu'ch darpariaeth gofal plant. Mae wedi'i ddylunio i gydnabod ansawdd gofal plant ac mae'n gyfle i chi hyrwyddo'ch busnes.**

Mae Ansawdd i Bawb yn gallu'ch helpu chi i ddangos sut mae cyflawni, cynnal a gwella ansawdd gofal plant yn eich lleoliad yn nod ac yn flaenoriaeth gyson gennych. Mae'n cysylltu â gofynion rheolaethol Arolygiaeth Gofal Cymru a'r gofynion sy'n cael eu gosod arnoch gan reolyddion eraill ac awdurdodau lleol. Mae'n gallu eich helpu i reoli a chwblhau eich hunan asesiad o wasanaeth blynyddol, heb dyblygu gwaith.

## Sut mae'n gweithio:

1. **Prynu'r pecyn.** Mae wedi'i ddylunio i gael ei gwblhau'n electronig, ewch at www.blynyddoeddcynnar.cymru/siop

2. **Darllenwch y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn.** Mae canllawiau ar gyfer pob adran o'r ffurflen werthuso. Mae yno hefyd ddolenni a chyfeiriadau at ddogfennau allanol sy'n cynnwys cyngor a gwybodaeth i chi yn ôl y gofyn.

3. **Dechreuwch werthuso'ch darpariaeth.** Mae terfyn amser 2 flynedd wedi'i osod ar gyfer ei chwblhau a'i gyflwyno; dim ond pan fyddwch chi'n barod y byddwch chi'n gofyn am asesiad.

4. **Cyflwyno'ch gwerthusiad trwy e-bost.** Fel y darparydd, chi sy'n rheoli'ch gwasanaeth a'r cynlluniau i'w wella. Mae'r asesiad o'ch darpariaeth yn dechrau gyda'ch gwerthusiad ysgrifenedig chi a seilir llawer o'r asesiad ar yr hyn rydych wedi'i gynnwys yn y gwerthusiad.

5. **Yr asesiad.** Gallwch ddisgwyl dim ond un ymweliad asesiad yn unig a fydd wedi'i ddylunio i siwtio'ch darpariaeth chi. Bydd cynllun, yn egluro beth a ddisgwylir yn ystod yr ymweliad, yn cael ei anfon atoch ymlaen llaw.

6. **Achrediad.** Byddwch yn derbyn tystysgrif i'w arddangos yn eich lleoliad.

7. **Parhau i fod wedi'ch achredu.** Cyn y daw'r dystysgrif i ben, anfonwch ddiweddariad o'ch ffurflen hunan werthusiad gyda manylion y cynnydd, y newidiadau a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.  Yna, bydd anfoneb yn cael ei hanfon atoch ar gyfer eich ail achrediad blynyddol.  Unwaith y bydd wedi'i derbyn bydd asesydd yn cysylltu â chi.

**Mae'ch ymrwymiad i ymarfer myfyriol a gwella'n barhaus yn eich galluogi i gyfarfod â'r rheoliadau ac â gofynion yr awdurdod lleol yn effeithiol ac yn economaidd.**

| Y pris ar gyfer | Aelodau: | Rhai nad ydynt yn aelodau: |
|---|---|---|
| Llawrlwythwch becyn canllawiau a gwerthuso | £65 gan gynnwys TAW | £87 gan gynnwys TAW |
| Asesiad cychwynnol | £220 gan gynnwys TAW | £282 gan gynnwys TAW |
| Ail achrediad blynyddol | £160 gan gynnwys TAW | £220 gan gynnwys TAW |

- **Ar gyfer rhai gyda 3 neu ragor o leoliadau** rhoddir disgownt o 10% ar gyfer yr ail ddarpariaeth (ac ar gyfer pob un ychwanegol).*

**Aelodaeth gorfforaethol o Blynyddoedd Cynnar Cymru:**

- Prynu pecynnau ac asesiadau Ansawdd i Bawb ar y prisiau i aelodau
- Drwy brynu 3 neu ragor o becynnau a / neu asesiadau, ceir disgownt o 10% ar gyfer yr ail ddarpariaeth (a phob darpariaeth ychwanegol ar ôl hynny)
- Os mai darparydd unigol sydd i dalu am ail achredu, dim ond os yw'r darparydd yn aelod o Blynyddoedd Cynnar Cymru y bydd y disgownt ar gael.

*Mae'r cynigion disgownt yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Llofnodwch ar gyfer Ansawdd i Bawb** drwy ymweld â:
**www.blynyddoeddcynnar.cymru/siop**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Cydlynydd Ansawdd i Bawb,**
Pencadlys Blynyddoedd Cynnar Cymru,
Uned 1, The Lofts,
9 Stryd Hunter Caerdydd
CF10 5GX
Ffôn: 029 2045 1242 / 07581 630974
E-bost: info@blynyddoeddcynnar.cymru

**Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018.**
Gofrestredi yn Cymru.
Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Caerdydd, CF10 5GX
Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233.
Elusen 1056381

**Dyma enghraifft o'r adran canllawiau Ansawdd i Bawb:**

# 2.4 Rhyngweithio staff gyda'i gilydd a chyda phlant, rhieni ac eraill

Mae plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd weithio, dysgu, meithrin a chwarae bositif

Disgrifiwch sut mae ymarfer dyddiol yn dangos ac yn cryfhau ethos eich gwasanaeth. Bydd yr hyder, y synnwyr o les a'r brwdfrydedd sy'n cael ei ddangos gan y plant yn eich gofal yn adlewyrchu rhinweddau eich tîm staff. Mae plant yn ffynnu ar eu taith i annibyniaeth yng ngofal staff cymwysedig ymatebol a chariadus sydd ar gael iddyn nhw mewn awyrgylch gynnes a meithringar.

Adolygwch a gwerthuso sut mae staff yn siarad gyda'i gilydd ym mhresenoldeb y plant ac eraill; sut maen nhw'n dangos model o ryngweithio cymdeithasol positif ar lafar ac fel arall. Bydd staff yn cydnabod ac yn deall eu bod yn cysylltu gyda babanod a phlant mewn amrywiaeth o ffyrdd, ar lafar ac fel arall. Fe fyddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi mor bwysig yw ymateb i'r plant, gadael iddyn nhw wybod eu bod wedi'u clywed a'u bod yn parchu eu cyfraniad i'r sgwrs.

Ystyriwch pa mor effeithiol y mae'r staff wrth helpu'r plant i adnabod a deall mynegiadau wyneb, sut mae'r staff yn egluro gweithrediadau, teimladau a bwriadau'r plant wrth ei gilydd (nad oedd plentyn arall yn bwriadu brifo er enghraifft) a bod gweithrediadau o garedigrwydd neu haelioni yn cael eu nodi a'u canmol yn rheolaidd. Ystyriwch sut y mae plentyn yn cael ei g / chyfeirio'n addfwyn i ffwrdd o weithgaredd neu'i g / chyflwyno i un arall.

Ystyriwch sut mae'r staff yn sensitif i deimladau'r plant, sut maen nhw'n paratoi'r plant ar gyfer newid gweithgaredd neu sut maen nhw'n 'rhybuddio' baban sydd ar fin cael ei g / chodi. Nodwch pa mor hyderus ydych chi bod eich staff fod yn ymwybodol o, ac yn gweithredu, ynglŷn â phroblemau cyn iddyn nhw godi.

**Ystyriwch y canlynol:**

- Staff yn dangos rhyngweithio cymdeithasol positif ar lafar ac fel arall gydol eu gwaith
- Staff yn annog ac yn cadarnhau hunan ddelwedd bositif yn y plant gydol eu gwaith
- Staff yn herio enghreifftiau o stereoteipio ac ymarfer gwrth wahaniaethu pryd a phan mae hynny'n digwydd
- Staff yn egluro gweithrediadau, bwriadau a theimladau'r plant iddyn nhw
- Staff yn dangos ac yn trafod achlysuron o ryngweithio cymdeithasol positif gyda'i gilydd a'r plant.
- Staff yn dangos, yn rheolaidd, sensitifrwydd ynglŷn â theimladau ac ymatebion y plant.

- Staff yn deall effeithiau'r ffordd maen nhw'n cyfarfod ac yn cyfarch y plant, rhieni ac ymwelwyr.
- Staff yn dal yn ymwybodol o'r grŵp cyfan wrth weithio gydag un plentyn neu grŵp bychan o blant.
- Staff yn ymwybodol o, ac yn gweithredu ar, broblemau cyn eu bod yn codi.
- Staff yn nodi ac yn amrywio dwysedd yr oruchwyliaeth i siwtio anghenion unigol y plant ac yn unol â'r amgylchiadau a'r gweithgaredd.
- Staff yn cydnabod ac yn annog twf plant tuag at annibyniaeth.
- Nid yw rhyngweithio rhyngbersonol ymysg staff yn amharu â chyfrifoldebau cyflwyno gofal.
- Côd ymddygiad staff yn cynnwys rhyngweithio rhwng staff a phlant tra yn y gweithle
- Staff yn gymwys wrth ymdrin â chyfrinachedd gydol eu gwaith.

**Dyma enghraifft o ffurflen hunan asesiad darparwyr Ansawdd i Bawb:**

# 2.4 Rhyngweithio staff gyda'i gilydd a chyda plant, rhieni ac eraill

**Mae plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd weithio, dysgu, meithrin a chwarae bositif**

Tystiolaeth darparydd

| |
|---|
| *Nodwch wybodaeth yma a rhowch enghreifftiau o ymarfer a / neu ddogfennau sy'n cefnogi'ch datganiadau wrth ymateb i 2.4:* |
| |
| *Nodwch yma unrhyw beth rydych eisiau gweithio arno a'i gynnwys mewn cynlluniau gwella ar gyfer y dyfodol. Rhowch grynodeb yn adran D:* |

Canfyddiadau'r asesydd Ansawdd i Bawb ar gyfer 2.4:

| | |
|---|---|
| Barn asesydd Ansawdd i Bawb: | Sylwadau'r asesydd Ansawdd i Bawb |